Gorffennol Digidol Digital Past - 2021

AIL-WNEUD Y GORFFENNOL

Changyu Diao and Zhirong Li, Vice Deans of Cultural Heritage Institute, Zhejiang University, China

Byddwn yn amlinellu'r dull ail-greu manwl sy'n manteisio ar sganio laser a ffotogrametreg i gynhyrchu replicâu geometrig trachywir ynghyd â gweadau o ansawdd uchel. Yn y modd hwn fe grëwyd replica treftadaeth ddiwylliannol 1:1, wedi'i ffabrigo drwy gyfrwng argraffu 3D ar adeiladwaith dur gydag atgyfnerthu cemegol, a chan integreiddio dyblygu lliw drwy raddnodi lliw, dadansoddi pigment, rheoli amodau golau, a thechnegau paentio. Roedd defnyddio'r technolegau digidol hyn yn gymorth i ddatrys materion yn ymwneud â dychwelyd ased treftadaeth ddiwylliannol ac i gynnal arddangosfa o ogofdai a oedd yn replicâu manwl gywir.

Bywgraffiad

Is-ddeoniaid yn y Sefydliad Treftadaeth Ddiwylliannol, Prifysgol Zhejiang, China yw Changyu Diao a Zhirong Li. Maen nhw'n arwain tîm ymchwil a chymwysiadau digidol ers 10 mlynedd. Eu maes ymchwil yw digido treftadaeth ddiwylliannol, gan gynnwys digido 3D, rheoli gwybodaeth, prosesu a dadansoddi gwybodaeth, arddangosfeydd rhithiol, amgueddfeydd digidol, argraffu 3D, ac ati. Mae rhai o'u cyflawniadau ymchwil yn y meysydd hyn yn China ar y lefel uchaf, a chawsant eu cymhwyso'n llwyddiannus at lawer o safleoedd ac amgueddfeydd.